**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CYNGOR**

Cofnodion o gyfarfod hybrid y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 15 Rhagfyr 2021 am 5.00 pm.

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cyngor Aelodau oedd yn bresennol**:-:-

Y Cynghorydd S Powderhill (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S Trask | Y Cynghorydd R Williams |
| Y Cynghorydd G Hughes | Y Cynghorydd M Powell |
| Y Cynghorydd H Boggis | Y Cynghorydd J Bonetto |
| Y Cynghorydd S Bradwick | Y Cynghorydd R Bevan |
| Y Cynghorydd A Calvert | Y Cynghorydd T Williams |
| Y Cynghorydd A Crimmings | Y Cynghorydd D Williams |
| Y Cynghorydd G Davies | Y Cynghorydd L De Vet |
| Y Cynghorydd S Rees | Y Cynghorydd J Elliott |
| Y Cynghorydd S Evans | Y Cynghorydd S.Evans |
| Y Cynghorydd M Forey | Y Cynghorydd A Fox |
| Y Cynghorydd M Norris | Y Cynghorydd E Webster |
| Y Cynghorydd M Griffiths | Y Cynghorydd A Roberts |
| Y Cynghorydd G Holmes | Y Cynghorydd L Walker |
| Y Cynghorydd G Hopkins | Y Cynghorydd P Howe |
| Y Cynghorydd R Yeo | Y Cynghorydd P Jarman |
| Y Cynghorydd R Turner | Y Cynghorydd G Thomas |
| Y Cynghorydd A Morgan | Y Cynghorydd M Adams |
| Y Cynghorydd J Rosser | Y Cynghorydd R Lewis |
| Y Cynghorydd C Leyshon | Y Cynghorydd J Brencher |
| Y Cynghorydd W Owen | Y Cynghorydd S Morgans |
| Y Cynghorydd E Stephens | Y Cynghorydd W Lewis |
| Y Cynghorydd G Jones | Y Cynghorydd W Treeby |
| Y Cynghorydd W Jones | Y Cynghorydd L Jones |
| Y Cynghorydd L Hooper | Y Cynghorydd J Harries |
| Y Cynghorydd D Grehan | Y Cynghorydd E George |
| Y Cynghorydd H Fychan | Y Cynghorydd J Williams |
| Y Cynghorydd A Davies-Jones | Y Cynghorydd J Davies |
| Y Cynghorydd J Cullwick | Y Cynghorydd A Cox |
| Y Cynghorydd E Griffiths | Y Cynghorydd G Caple |
| Y Cynghorydd J Edwards | Y Cynghorydd J Barton |

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Cyfreithiol

## 94 Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Llywydd bawb i gyfarfod hybrid cyntaf y Cyngor a chyhoeddodd enwau'r Cynghorwyr a oedd yn bresennol yn Siambr y Cyngor:

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A Morgan, A Crimmings, G Caple, S Bradwick, R Williams, LM Adams, L Walker, J Davies, S Trask a L Hooper.

Roedd y Swyddogion canlynol hefyd yn bresennol yn Siambr y Cyngor:

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr, Mr B Davies, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol, Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Cyfreithiol a Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S Belzak, A Chapman, J James AS, K Jones, M Fidler Jones, K Morgan, D Owen-Jones, S Pickering, SM Powell, S Rees-Owen, G Stacey, M Tegg , M Weaver a M Webber.

## 95 Datganiad o Fuddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd sawl datganiad o fuddiant personol ei wneud nes ymlaen yn y cyfarfod mewn perthynas â'r agenda (gweler Cofnod Rhif 103 – Rhybudd o Gynnig).

## 96 Cyhoeddiadau

- Roedd y Cynghorydd S Powderhill a’r Cynghorydd C Leyshon wedi canmol Melissa Foster a Christina Prewitt ar eu haddewid i gasglu sbwriel am 365 diwrnod, gan ddechrau ar Nos Galan 2020 a gorffen ar Nos Galan 2021. Cyhoeddwyd eu bod nhw wedi casglu sbwriel mewn llawer o ardaloedd lleol megis Trallwng, Trefforest, Y Ddraenen Wen, Beddau, Glyn-taf, Cilfynydd, Radur, Castell Coch ac Ogwr hyd yma yn ogystal â lleoliadau ymhellach i ffwrdd fel Windermere a Kendall. Gofynnwyd bod llythyr gan y Maer yn cael ei anfon at Melissa a Christina i gydnabod eu hymdrechion.

- Cyhoeddodd y Cynghorydd Sera Evans fod Ysgol Gynradd y Parc yng Nghwm-parc wedi derbyn gwobr 'Calon y Gymuned' gan Sefydliad Ymgysylltu â'r Gymuned a dyma'r ysgol gyntaf yng Nghymru i ennill y wobr. Mae’r ysgol wedi bod yn cefnogi ei disgyblion, teuluoedd a’r gymuned gyda gweithgareddau fel dosbarthiadau tylino babanod, sesiynau i deuluoedd â phlant bach, prosiectau eco-gymunedol, ymweld â’r grŵp dementia lleol ddwywaith y mis, cynnig cyfleoedd hyfforddi yn ogystal â chynnal gweithdai i'r gymuned a darparu pecynnau bwyd angenrheidiol. Dyfarnwyd y wobr 'Hyrwyddwr Cymunedol Eithriadol' i Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd yr Ysgol, Leanne Gough, gan gydnabod ei hangerdd dros les ei disgyblion a'u teuluoedd yng Nghwm-parc. Gofynnodd y Cynghorydd bod y Maer yn anfon llythyr i gydnabod cyflawniad yr ysgol.

- Cyhoeddodd y Cynghorydd A Cox fod ‘House of Hansen’ sydd wedi’i leoli ar Stryd Hannah, Porth wedi ennill ‘Salon Harddwch y Flwyddyn 2021’ yng ngwobrau Gwallt a Harddwch Cymru. Dyma gwmni o'r Porth sydd wedi bod yn y dref ers dros 10 mlynedd ac mae'r busnes hefyd yn cynnig hyfforddiant harddwch i unigolion. Gofynnodd y Cynghorydd Cox bod y Maer yn anfon llythyr at Stacey Hansen a'r salon i gydnabod y wobr.

**97 Cofnodion**

**PENDERFYNODD** y Cyngor gymeradwyo cofnodion y cyfarfod, a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd (3.30pm) yn rhai cywir.

**98 Datganiadau**

Rhoddodd yr Arweinydd ddiweddariad ynghylch y datblygiadau diweddaraf o ran Covid ar lefel lleol a chenedlaethol. Dywedodd fod y nifer uchaf o achosion erioed, sef cyfanswm o 78,600 o achosion, wedi'u cofnodi ledled y DU. Roedd sefyllfa fwy sefydlog i'w gweld yn Rhondda Cynon Taf dros y 7 diwrnod diwethaf, er mae'n debygol y bydd hyn yn newid dros yr wythnosau nesaf gyda chynnydd cyflym yn nifer yr achosion, yn enwedig gyda dyfodiad yr amrywiolyn newydd, sef Omicron. Hyd yma mae 3 achos o Omicron wedi'u cadarnhau yng Nghwm Taf Morgannwg.

Roedd yr Arweinydd wedi diolch i'r swyddogion hynny o garfan yr awdurdod lleol am eu cyfraniad nhw at y rhaglen frechu, ychwanegodd fod 105 o staff y Cyngor yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r targed o roi 50,000 o frechlynnau'r wythnos. Bydd y ffigur yma'n cynyddu i rhwng 140 a 150 o staff i gefnogi’r GIG yng ngoleuni targedau newydd a osodwyd gan Lywodraethau Cymru.

Pwysleisiodd yr Arweinydd fod modd i bawb sydd heb gael y brechlyn cyntaf neu'r ail frechlyn fynd i Ganolfan Frechu heb apwyntiad. O ran y brechlyn atgyfnerthu, pwysleisiodd bwysigrwydd mynychu'r apwyntiadau a neilltuwyd gan fod nifer fawr o staff y Cyngor wedi gorfod cael eu hadleoli i fynd i'r afael â'r cynnydd yn nifer y galwadau gan drigolion sy'n dymuno newid/ymholi ynghylch eu hapwyntiadau. Roedd yr Arweinydd yn annog pawb i ddefnyddio'r cyfleuster ar-lein lle bo modd ac yn achos yr holl drigolion sy'n gaeth i'r tŷ, mae meddygon teulu lleol yn trefnu ymweliadau â thai ac felly nid yw'n broblem i ganolfan alwadau'r Cyngor.

I gloi, pwysleisiodd yr Arweinydd y bydd yr amrywiolyn newydd yn arwain at nifer fawr o heintiau a bydd modd iddo effeithio ar nifer y staff sydd ar gael, yn enwedig yn y sector gofal cymdeithasol, sydd bob amser yn heriol. Ychwanegodd y byddai diweddariadau pellach yn cael eu darparu maes o law.

**99 Cwestiynau gan yr Aelodau**

**Cafodd yr Aelodau wybod y derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr G Stacey ac M Webber, Dirprwy Arweinydd y Cyngor. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu na fyddai cwestiwn 6 yn cael ei gyflwyno i’r Aelod o'r Cabinet ac y byddai ymatebion ysgrifenedig yn cael eu darparu mewn perthynas â chwestiynau 5, 14 a 23.**

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Cox i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion**

**Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:**

“Pa baratoadau y mae CBS RhCT yn eu gwneud mewn perthynas â'r cynnig i gyflwyno Prydau Ysgol am Ddim i holl ddisgyblion cynradd Cymru?”

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:**

Dywedodd y Cynghorydd Rosser fod gwasanaethau arlwyo RhCT ar hyn o bryd yn adolygu’r ddarpariaeth prydau ysgol ym mhob un o ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig y Cyngor drwy asesu offer y gegin a’r cyfleusterau storio er mwyn amcangyfrif y cynnydd yn nifer y prydau bwyd a’r gofynion ychwanegol o ran staff, offer, storio a faint o le sydd yn y ffreutur. Ychwanegodd y Cynghorydd Rosser fod y Cyngor wedi cwrdd ag Awdurdodau Lleol eraill, cyflenwyr a chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru i drafod yr heriau a wynebir ledled Cymru a’i fod ar hyn o bryd yn aros i Lywodraeth Cymru gadarnhau manylion y cynigion, y trefniadau ariannu a’r amserlenni er mwyn dechrau'r gwaith gweithredu.

**Cwestiwn Ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Cox:**

“A yw’r Cyngor yn edrych ar y fformiwlâu ariannu yn fewnol ac yn asesu ai dyma'r fformiwla ariannu orau ar gyfer y gwasanaeth ac yn asesu’r buddion ar gyfer yr ysgolion? A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ymuno â mi i longyfarch yr ymgyrchwyr sydd wedi brwydro’n galed am gyfnod hir i sicrhau bod hyn yn cael ei fabwysiadu ac i Blaid Cymru sydd wedi mynnu hyn yn rhan o’r cytundeb gyda Llafur er gwaethaf ei wrthod yn y Senedd?”

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:**

Dywedodd y Cynghorydd Rosser fod y Cyngor yn aros i gael rhagor o wybodaeth am drefniadau ariannu ond rhoddodd sicrwydd y byddai popeth yn cael ei asesu'n briodol ac mewn da bryd. Ychwanegodd fod pawb yn falch o'r canlyniad ond ychwanegodd mai'r penderfyniad cywir oedd aros ar gyfer adolygiad cynhwysfawr o wariant cyn ymrwymo i'r cynnig, a hynny gan nad oedd Llywodraeth San Steffan wedi rhoi unrhyw sicrwydd ynghylch cyllid.

Atgoffodd y Cynghorydd Rosser y Cyngor fod y Cynnig gan Blaid Cymru yn galw am brydau ysgol am ddim ar gyfer *pob* plentyn, gan gynnwys y rhai mewn ysgolion preifat. Mae hefyd yn gofyn bod pob teulu sy’n derbyn Credyd Cynhwysol yn gymwys ond nid oedd y cynnig yn cynnwys costau nac yn cynnig unrhyw argymhellion ynghylch cyllid. I gloi, dywedodd y Cynghorydd Rosser fod hyn yn enghraifft o gydweithio ym myd gwleidyddiaeth yng Nghymru a mae modd dathlu'r newidiadau cadarnhaol y mae'r cynnig yn ei wneud.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Holmes i Arweinydd y Cyngor - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:**

“Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd teuluoedd ar incwm isel a budd-daliadau cymwys yn derbyn £100 i’w helpu gyda’u biliau cyfleustodau y gaeaf hwn. All Arweinydd y Cyngor roi rhagor o wybodaeth am hyn a faint o bobl fydd yn elwa o hyn yn RhCT?”

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:**

Dywedodd yr Arweinydd fod y Cynllun Tanwydd y Gaeaf yn mynd yn fyw ar wefan y Cyngor ddydd Llun yr wythnos hon a bydd y cynllun yn rhoi cyfle i unigolion perthnasol wneud cais am £100 i'w helpu gyda chostau cyfleustodau dros y Gaeaf. Esboniodd fod y Cyngor wedi ysgrifennu at tua 15,400 o aelwydydd sy'n hawlio cymorth ar hyn o bryd yn rhan o Gynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor RhCT. Mae yna nifer o aelwydydd eraill sy'n gymwys ac sy'n hawlio budd-dal perthnasol ond sydd ddim yn gymwys ar gyfer Gostyngiad Treth y Cyngor ac mae opsiwn gyda nhw i hawlio'r cymorth ar wefan y Cyngor. Ar hyn o bryd rydyn ni'n

amcangyfrif y bydd hyd at 15,800 o aelwydydd eraill yn elwa o'r cymorth hwn sy'n golygu ei bod hi'n bosibl y bydd 31,200 o aelwydydd yn RhCT yn gymwys i gael y taliad hwn, sy'n golygu bod £3.12m yn mynd yn uniongyrchol i'r teuluoedd tlotaf yn y Sir dros y gaeaf.

Rhoddodd yr Arweinydd wybod bod Swyddogion wrthi'n cyflawni gwaith i ennill dealltwriaeth well o bwy yw'r aelwydydd yma, a'u nodi nhw, fel bod modd i'r Cyngor ganolbwyntio ar gysylltu â nhw. I gloi, galwodd yr Arweinydd ar yr Aelodau i annog aelwydydd i gofrestru ar gyfer y cymorth hwn.

**Cwestiwn ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Holmes:**

“Mae llawer o bensiynwyr yn byw ar eu pen eu hunain ac yn ei chael hi'n anodd oherwydd y cynnydd mewn costau, oes modd i ni alw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu rhagor o gymorth iddyn nhw?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:**

Cadarnhaodd y Cynghorydd Morgan fod hyn y tu allan i gwmpas y gronfa ond dywedodd fod gan aelwydydd Pobl Hŷn hawl i Lwfans Tanwydd Gaeaf ar hyn o bryd a bod gan y rhai dros 80 oed hawl i gynnydd pellach gan Lywodraeth Cymru. Cadarnhaodd yr Arweinydd y byddai'n codi hyn gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Williams i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Gwasanaethau Treftadaeth - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings:**

“All yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ffigurau ailgylchu hyd yma eleni a chadarnhau a ydyn ni ar y trywydd iawn i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru?”

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings:**

Cadarnhaodd y Cynghorydd Crimmings fod gan y Cyngor dargedau statudol ar gyfer ailgylchu sydd wedi'u pennu gan Lywodraeth Cymru a tharged eleni yw 64%. Gall methu â'i gyflawni arwain at ddirwy o £200 am bob tunnell ychwanegol. Ychwanegodd y Cynghorydd Crimmings taw'r her gynyddol dros y 18 mis diwethaf oedd darparu gwasanaethau yn ystod y pandemig a dymunodd ddiolch i'r staff am eu hymroddiad a'u hymrwymiad. Cadarnhaodd y Cynghorydd Crimmings fod y cyfraddau ailgylchu ar gyfer y flwyddyn hyd yma (Ebrill-Hydref) ychydig dros 69% (69.11%) sy'n uwch na tharged Llywodraeth Cymru, mae hwn yn cynrychioli cyflawniad sylweddol gan y Cyngor a thrigolion RhCT yn ystod y Pandemig.

Dywedodd y Cynghorydd Crimmings fod ffigurau eleni'n cynrychioli'r ffigurau uchaf erioed ar gyfer y Cyngor ac mae bod mor agos at y targedau yn ystod y cyfyngiadau yn dyst i ymrwymiad y staff a threfniadau casglu. Dywedodd y Cynghorydd mai'r targed nesaf ar gyfer y Cyngor hwn yw targed 2024/2025 o 70% ac, os gellir ei gynnal a'i wella ychydig, bydd y Cyngor ar y trywydd iawn i barhau i weithio tuag at gyflawni ei nod o 80%. Mae newid arferion gweithredu wedi rheoli effaith y cyfyngiadau a difrifioldeb y mesurau er mwyn bodloni rheolau a chanllawiau a sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu mewn modd diogel, a hynny o ran y staff a'r trigolion.

**Cwestiwn Ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Williams:**

“Beth arall y mae modd i ni ei wneud o ran cyfathrebu â thrigolion i gyrraedd targed y Cyngor o 80%?”

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings:**

Dywedodd y Cynghorydd Crimmings fod y Cyngor, er y cynnydd rhagorol ac

ymdrechion trigolion, yn awyddus i gyflawni mwy. Yn ddiweddar, mae negeseuon ailgylchu Nadoligaidd wedi'u rhannu ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor. Mae ymgyrchoedd llwyddiannus hefyd wedi'u cynnal dros y blynyddoedd diwethaf, yn lleol ac yn rhan o'r ymgyrch ranbarthol "Bydd Wych" gydag Awdurdodau Lleol eraill De Ddwyrain Cymru. Dywedodd y Cynghorydd Crimmings fod y Cyngor yn bwriadu lansio ymgyrch codi ymwybyddiaeth ryngweithiol yn 2022 i bwysleisio bod angen i drigolion ailgylchu cymaint â phosibl. I gloi, cadarnhaodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Gwasanaethau Treftadaeth fod yr Awdurdod yn parhau i edrych ar ffyrdd o leihau ei ôl troed carbon, mae dwy enghraifft ddiweddar yn cynnwys y sachau gwastraff gwyrdd newydd a threialu cerbyd casglu trydan yn ddiweddar.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Caple i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

"A wnaiff yr Arweinydd ddatganiad ar sut mae'r Cyngor yma yn gweithio gyda Trivallis a darparwyr tai cymdeithasol eraill i gyflawni gwelliannau amgylcheddol?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod y Cyngor wedi gweithio'n agos gyda chymdeithas tai Trivallis dros nifer o flynyddoedd i nodi llwybrau troed wedi'u mabwysiadu ar ei hystadau a gwelliannau eraill i seilwaith. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi derbyn cymorth ariannol gan Trivallis ac mae'r Cyngor wedi cyfrannu'r un swm i gynnal gwaith gwella ystadau ym Mhen-y-waun, Cwm-bach, Maerdy, Dinas, Cymer, Trebanog a Thonyrefail. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd gwaith ar y cyd ar fuddsoddi ym meysydd chwarae ar safleoedd Trivallis. Mae gan y Cyngor Warden Gorfodi/Ymwybyddiaeth ar hyn o bryd (wedi'i ariannu gan Trivallis o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth) sy'n delio â phroblemau/troseddau amgylcheddol ar yr ystadau.

Nododd yr Arweinydd fod gan y Cyngor staff glanhau ychwanegol (2 swydd cyfwerth ag amser llawn) sy'n ymgymryd â gwaith glanhau ychwanegol ar nifer o ystadau Trivallis sy'n achosi problemau. Hefyd, mae'r Cyngor yn gweithio'n rheolaidd gyda Trivallis i nodi problemau (gwastraff/tipio'n anghyfreithlon/ac ati yn bennaf) a chydlynu gweithwyr i gynnal gwaith glanhau ac ymateb i broblemau.

**Cwestiwn ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Caple:**

"Oes modd i chi ehangu ar y buddion ariannol i'r Cyngor a Trivallis o ganlyniad i'r gwelliannau amlwg ar gyfer tenantiaid a thrigolion hen Ystadau'r Cyngor e.e. gwelliannau i briffyrdd ar Ystad Rhiw Garn, Trebanog?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

Nododd yr Arweinydd ei bod yn bwysig manteisio i'r eithaf ar y buddion lle mae modd i'r Cyngor weithio'n agos â Trivallis. Rhoddodd enghraifft o hyn gan gyfeirio at wella mynediad i fflatiau. Mewn rhai achosion, mae'r Cyngor wedi ymgymryd â gwaith a oedd yn rhan o gylch gwaith Trivallis o ran gwelliannau amgylcheddol ond mae eu hychwanegu nhw at gontractau'r Cyngor pan fo ar y safle yn barod yn manteisio i'r eithaf ar effeithlonrwydd yn achos y Cyngor a Trivallis.

Cadarnhaodd yr Arweinydd ei fod wedi ymweld â safleoedd gyda Trivallis a swyddogion yr Awdurdod Lleol er mwyn trafod rhaglen waith y flwyddyn nesaf. O ran gwella llifogydd, nododd yr Arweinydd fod Trivallis wedi gwneud cyfraniadau ariannol er mwyn gwella asedau llifogydd i ddarparu mesurau gwrthsefyll ychwanegol yn yr eiddo. Yn ogystal â Trivallis, cadarnhaodd yr Arweinydd fod gwaith ar y cyd â Darparwyr Tai eraill yn parhau.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. P. Thomas i Arweinydd y Cyngor,**

**Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

“A all Arweinydd y Cyngor amlinellu pa geisiadau sydd wedi cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru, ac sy'n mynd i gael eu cyflwyno iddi, o ran gwella cwlferi a chynlluniau lliniaru llifogydd?

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

Nododd yr Arweinydd fod carfan Rheoli Perygl Llifogydd y Cyngor wrthi'n datblygu ceisiadau am nifer o brosiectau a chamau prosiectau mawr fydd yn llywio amserlen Llywodraeth Cymru o ran ceisiadau grant ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23. Rhoddwyd gwybod i Aelodau y cafodd y ceisiadau am y rhain eu cyflwyno erbyn 10 Rhagfyr 2021. Mae'r garfan yn edrych ar gynlluniau piblinellau cenedlaethol ac mae wedi cyflwyno cynlluniau ar gyfer y tair blynedd nesaf. Bydd cynlluniau pellach yn cael eu hychwanegu at flynyddoedd dau a thri dros amser.

Rhoddodd yr Arweinydd wybod bod cyllid sylweddol wedi'i dderbyn trwy'r prosiectau ar raddfa fach sy'n cynnwys prosiectau hyd at £150K. Mae nifer o gynlluniau wedi'u cymeradwyo yn barod. Mae nifer o geisiadau wedi cael eu cyflwyno ar gyfer y flwyddyn nesaf a bydd rhagor o wybodaeth o ran cymeradwyo ar gael erbyn mis Chwefror/Mawrth 2022, er bod pob cais wedi'i gyflwyno hyd yn hyn wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodaeth Cymru.

O ran y Gronfa Ffyrdd Cydnerth, sy'n cynnwys cynlluniau draenio priffyrdd yn bennaf, nododd yr Arweinydd fod nifer o gwlferi wedi achosi llifogydd ar briffyrdd. Hefyd, nododd fod eiddo preswyl wedi'u heffeithio wedi bod yn destun ceisiadau grant unigol. Cyfanswm buddsoddiad y ceisiadau grant yma yw £8M y flwyddyn nesaf.

Yn dilyn llifogydd pellach, mae'r Cyngor yn parhau i gyflymu rhaglen heriol o brosiectau rheoli perygl llifogydd gyda 9 cais arall am waith ar raddfa fach wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Cafodd y rhain eu cymeradwyo ym mis Tachwedd 2021 ar gyfer 2021/22, gan greu buddsoddiad arall o £480k. Cyfanswm y portffolio presennol o brosiectau rheoli perygl llifogydd sy'n cael eu cyflawni neu'u datblygu yn 2021/22 yw 70. I gloi, esboniodd yr Arweinydd fod y prosiectau yma'n debygol o barhau dros y 5-10 mlynedd nesaf.

**Cwestiwn Ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Thomas:**

“Mewn perthynas â'r datganiad i'r wasg diweddar o ran Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n annog pobl i wirio eu risg llifogydd, oes modd i chi roi cyngor pellach os bydd trigolion yn cysylltu â ni?”

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

Esboniodd yr Arweinydd fod y datganiad i'r wasg diweddar o ran Cyfoeth Naturiol Cymru ar wefan y Cyngor wedi hyrwyddo'r offeryn gwirio codau post sydd i'w ddefnyddio ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru. Caiff trigolion wirio a ydyn nhw mewn perygl o fathau penodol o lifogydd. O safbwynt y Cyngor, cytunodd y Cabinet ar Garfan Gorfodi Llifogydd a Swyddog Ymwybyddiaeth a Chymorth Llifogydd yn ddiweddar, fydd yn ymgysylltu â thrigolion er mwyn cynnig cyngor ar faterion lliniaru llifogydd.

**100 Rhaglen Waith Y Cyngor 2021/22**

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu nad oedd unrhyw newidiadau o ran Rhaglen Waith y Cyngor 2021/22 sydd wedi'i mabwysiadu a'i chyhoeddi.

**101 Amrywiaeth mewn Democratiaeth**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei

adroddiad a geisiodd gymeradwyaeth y Cyngor mewn perthynas â'r 'Datganiad Amrywiaeth' fel addewid ffurfiol y Cyngor i ddod yn Gyngor Amrywiol. Aeth e ati i atgoffa Aelodau o'r penderfyniad a wnaethpwyd gan Aelodau i ddod yn Gyngor Amrywiol yn y cyfarfod arbennig o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Mai 2021. Roedd trafodaeth am gyfres o argymhellion gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac roedd pob Grŵp Gwleidyddol o blaid. RhCT oedd y Cyngor cyntaf yng Nghymru i wneud yr addewid.

Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio'n sylweddol ar yr agenda amrywiaeth ac mae nifer o argymhellion wedi dod i'r amlwg o waith Amrywiaeth mewn Democratiaeth Llywodraeth Cymru ac mae sylw yn cael ei roi i'r rhain trwy Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Rhannwyd manylion gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth mewn perthynas â'r Gweithgor a sefydlwyd gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd i fwrw ymlaen â'r mater a hyrwyddo cyfranogi ac ymgysylltu cyn etholiadau llywodraeth leol 2022. I gydnabod y gwaith sydd wedi'i gynnal a'r blaenoriaethau parhaus fel sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad sydd wedi'i atodi, cynigir mabwysiadu'r datganiad amrywiaeth.

Ar ôl trafod yr adroddiad ac atodiadau cysylltiedig, **PENDERFYNWYD**:

1. Mabwysiadu'r 'Datganiad Amrywiaeth' sydd wedi'i atodi, yn amodol ar gynnwys y pwynt ychwanegol canlynol "i annog pob Aelod i fod yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i helpu i'w hamddiffyn nhw ar ôl ymddeol" a bwrw ymlaen â'r datganiad fel addewid ffurfiol y Cyngor i ddod yn Gyngor Amrywiol.

## 102 Adroddiadau Blynyddol 2020/21

Trwy ei adroddiad, cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu Adroddiadau Blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2020/21. Ychwanegodd gan nodi bod y ddau adroddiad blynyddol wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgorau priodol ar gyfer eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn.

Yn dilyn sylwadau gan Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L Hooper, a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Mr C Jones, **PENDERFYNWYD** nodi'r Adroddiadau Blynyddol ar gyfer y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2020/21 (yn amodol ar gywiro gwall argraffu ar dudalen 3 Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Democrataidd).

## 103 Rhybudd o Gynnig

Derbyniwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol: S. Bradwick, M. Forey, L. M. Adams, J. Barton, D. R. Bevan, H. Boggis, J. Bonetto, J. Brencher, A. Calvert, G. Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L. De- Vet, J. Edwards, J. Elliott, S. Evans, G. Jones, M. Fidler Jones, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries, G. Holmes, G. Hopkins, R. Lewis, W. Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, S. Pickering, S. Powell, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, G. Stacey, M. Tegg, G. Thomas, W. Treeby, R. K. Turner, M. Webber, D. Williams, R. Williams, T. Williams, R. Yeo

Dylai banciau fod yn wasanaeth hanfodol yn ein cymunedau, gan gynnig mynediad cyfleus i drigolion i'w harian a'u galluogi nhw i ofalu am unrhyw faterion ariannol personol.  Yn aml, maen nhw wedi'u lleoli yng nghanol ein trefi, yn agos at gyfleusterau a siopau hanfodol eraill.

Yr hysbysiad sy'n nodi y bydd cwmni Barclays yn cau ei gangen yn Sgwâr Fictoria yn Aberdâr ym mis Mawrth 2022 yw'r enghraifft ddiweddaraf o wasanaethau ariannol yn cael eu tynnu'n ôl o gymunedau Rhondda Cynon Taf. Os bydd y cynlluniau'n cael eu cymeradwyo, byddan nhw'n cael effaith niweidiol ar y cyfleoedd sydd gan ein trigolion i ddefnyddio'r cyfleusterau yma, yn ogystal â chael effaith ar fywiogrwydd canol ein trefi. Mae'r Cyngor wedi gweithio'n galed i sicrhau bod ein canol trefi yn llefydd deniadol a chroesawgar ar gyfer y cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu, yn enwedig ar ôl yr anawsterau eithriadol y mae masnachwyr lleol wedi'u hwynebu yn ystod y 18 mis diwethaf.

Mae Aberdâr eisoes wedi gweld NatWest a HSBC yn tynnu eu gwasanaethau o'r dref, tra bod Trefforest, Treorci, Porth ac Aberpennar ymhlith yr ardaloedd eraill sydd hefyd wedi gweld banciau'n cau yn ystod y blynyddoedd diwethaf

Ni fydd y sicrwydd sy'n cael ei ddarparu gan Barclays ynghylch y gwasanaethau agosaf ym Merthyr Tudful a Phontypridd yn fawr o gysur i nifer o bobl, bydd y daith i'r naill gangen yn cymryd rhwng 40-50 munud.

Mae'r Cyngor hwn yn dymuno cofnodi ei wrthwynebiad i'r cynlluniau i gau Banc Barclays yn Aberdâr ac yn penderfynu:

- Gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Bennaeth Cysylltiadau Corfforaethol Wales and West a Phrif Weithredwr Banc Barclays i alw am ailystyried y cynlluniau.

- Gofyn bod y Cyngor yn ceisio sicrhau bod y buddion cymdeithasol sy'n gysylltiedig â chynnal cyfleusterau bancio lleol yn ein cymunedau yn cael eu cynnwys yn rhan o'n perthynas â'r sector bancio yn y dyfodol.

Yn y cyfarfod, cyhoeddodd y Cadeirydd, yn unol â Rheol 10.4.1 o Weithdrefn y Cyngor, fod y diwygiad canlynol i'r Rhybudd o Gynnig wedi'i dderbyn gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P. Jarman, A. Cox, J. Williams, D. Grehan, G. Davies, J. Davies, J. Cullwick, K. Morgan, L. Jones, E. Stephens, S. Rees-Owen, M. Weaver, E. Webster, A. Chapman, S. Evans, H. Fychan ac E. Griffiths.

Roedd y cynnig diwygiedig yn nodi:

Dylai banciau fod yn wasanaeth hanfodol yn ein cymunedau, gan gynnig mynediad cyfleus i drigolion i'w harian a'u galluogi nhw i ofalu am unrhyw faterion ariannol personol.  Yn aml, maen nhw wedi'u lleoli yng nghanol ein trefi, yn agos at gyfleusterau a siopau hanfodol eraill.

Yr hysbysiad sy'n nodi y bydd cwmni Barclays yn cau ei gangen yn Sgwâr Fictoria yn Aberdâr ym mis Mawrth 2022 yw'r enghraifft ddiweddaraf o wasanaethau ariannol yn cael eu tynnu'n ôl o gymunedau Rhondda Cynon Taf. Os bydd y cynlluniau'n cael eu cymeradwyo, byddan nhw'n cael effaith niweidiol ar y cyfleoedd sydd gan ein trigolion i ddefnyddio'r cyfleusterau yma, yn ogystal

â chael effaith ar fywiogrwydd canol ein trefi. Mae'r Cyngor wedi gweithio'n galed i sicrhau bod ein canol trefi yn llefydd deniadol a chroesawgar ar gyfer y cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu, yn enwedig ar ôl yr anawsterau eithriadol y mae masnachwyr lleol wedi'u hwynebu yn ystod y 18 mis diwethaf.

Mae Aberdâr eisoes wedi gweld NatWest, The Co-operative Bank a HSBC yn tynnu eu gwasanaethau o'r dref, tra bod Trefforest, Treorci, Porth ac Aberpennar ymhlith yr ardaloedd eraill sydd hefyd wedi gweld banciau'n cau yn ystod y blynyddoedd diwethaf

Ni fydd y sicrwydd sy'n cael ei ddarparu gan Barclays ynghylch y gwasanaethau agosaf ym Merthyr Tudful a Phontypridd yn fawr o gysur i nifer o bobl, bydd y daith i'r naill gangen yn cymryd rhwng 40-50 munud.

Mae'r Cyngor hwn yn dymuno cofnodi ei wrthwynebiad i'r cynlluniau i gau Banc Barclays yn Aberdâr ac yn penderfynu:

- Gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Bennaeth Cysylltiadau Corfforaethol Wales and West a Phrif Weithredwr Banc Barclays i alw am ailystyried y cynlluniau.

- Gofyn bod adroddiad ar y cyd gan y Prif Weithredwr, y Swyddog 151 a'r Swyddog Monitro yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor gan fynd i'r afael â phob mater sy'n berthnasol i drafod opsiwn i newid ein bancwyr o Barclays.

- Gofyn bod y Cyngor yn ceisio sicrhau bod y buddion cymdeithasol sy'n gysylltiedig â chynnal cyfleusterau bancio lleol yn ein cymunedau yn cael eu cynnwys yn rhan o'n perthynas â'r sector bancio yn y dyfodol.

- Nodi cyhoeddiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu a lansio Banc Cymunedol newydd i Gymru sydd â'i bencadlys yng Nghymru. Mae'r Cyngor hwn hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflymu gwaith sefydlu a chyflwyno Banc Cambria sy'n bwriadu agor canghennau'r stryd fawr mewn trefi ledled Cymru.

**(Noder**: Yn ystod adeg yma'r cyfarfod ac yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant personol canlynol eu gwneud ynglŷn â'r Rhybudd o Gynnig:

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan: “Rydw i'n bancio gyda banc Barclays”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. P. Thomas: “Rydw i'n bancio yng nghangen Aberdâr banc Barclays”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Hughes: “Rydw i'n bancio gyda banc Barclays”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Sheryl Evans: “Rydw i'n bancio gyda banc Barclays”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol E. George: “Rydw i'n bancio gyda banc Barclays”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Grehan: “Rydw i'n bancio gyda banc Barclays”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. R. Davies: “Rydw i'n bancio gyda banc

Barclays”

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Jones: “Rydw i'n bancio gyda banc Barclays”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Bonetto: “Rydw i'n bancio gyda banc Barclays”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. R. Bevan: “Rydw i'n bancio gyda banc Barclays”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Caple: “Rydw i'n bancio gyda banc Barclays”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Howe: “Rydw i'n bancio gyda banc Barclays”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings: “Rydw i'n bancio gyda banc Barclays”

Yn ystod trafodaethau, ac mewn perthynas â'r diwygiad i'r Rhybudd o Gynnig, darllenodd Arweinydd y Cyngor y datganiad canlynol mewn ymateb i ymholiad o ran prosesau caffael y Cyngor mewn perthynas â banc Barclays:

“Mae gyda ni berthynas gontractiol gyda Barclays i ddarparu gwasanaethau bancio corfforaethol i'r Cyngor. Dydy'r Contract ddim yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau sy'n gysylltiedig â mandadu canghennau lleol.

  - <u>Fyddai hi ddim yn gyfreithlon</u> i ddod â chontract i ben gan ystyried materion nad oes gyda nhw gysylltiad uniongyrchol â'r contract. Dim ond os oes materion penodol, er enghraifft cyflawniad y contractwr, y mae modd cychwyn cymalau dod â chontract i ben.

- Does dim materion mewn perthynas â chyflawni'r Contract yma ar hyn o bryd allai gychwyn hyn.

- Mae Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 a Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor yn ei gwneud hi'n orfodol i Awdurdodau Contractio gynnal eu prosesau caffael mewn ffordd agored, teg a thryloyw. Mewn achos lle mae'r Cyngor yn tendro'r contract yma yn y dyfodol, fyddai hi ddim yn gyfreithlon gwahardd na dylanwadu ar berthynas gontractiol ar sail materion sydd y tu hwnt i ddarpariaethau / gwasanaethau'r contract.

- Bydd angen i unrhyw adolygiad o fancwr y Cyngor yn y dyfodol gael ei gynnal mewn ffordd agored, teg a thryloyw, ac wrth gydymffurfio â'r egwyddorion wedi'u nodi yn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 a Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor”.

Cafwyd trafodaeth bellach ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn 12.7 y Cyngor, cynhaliwyd pleidlais mewn perthynas â'r diwygiad i'r Rhybudd o Gynnig a **PHENDERFYNWYD** peidio â mabwysiadu'r diwygiad.

(**Nodwch**: Roedd Grŵp Plaid Cymru a oedd yn bresennol yn dymuno iddo gael ei gofnodi ei fod wedi pleidleisio o blaid y diwygiad i'r Rhybudd o Gynnig: Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P Jarman, A Cox, J Cullwick, G R Davies, S Evans, H Fychan, D Grehan, E Griffiths, L Jones, E Webster a J Williams).

Yn dilyn trafodaeth mewn perthynas â'r cynnig gwreiddiol ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn 12.7 y Cyngor, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r cynnig gwreiddiol.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.50 pm**

**Cllr S Powderhill**
**Cadeirydd.**